Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Coedybryn
# Maes-Llyn
# Coedybryn
# Llandysul
# Ceredigion
# SA44 5JL

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Coedybryn yng nghanol pentref Coedybryn, tua chwe milltir o Landysul. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 33 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn. Derbynia'r ysgol ddisgyblion amser llawn i'r dosbarth ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae rhan fwyaf y disgyblion wedi mynychu'r cylch meithrin lleol sy'n cwrdd yn neuadd yr ysgol. Addysgir yn bennaf yn y Gymraeg.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd ac mae cyrhaeddiad disgyblion yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Tua 15% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ychydig o blant o gefndir ethnig lleiafrifol sydd yn yr ysgol. Mae 11% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn is na'r canrannau ar gyfer Ceredigion a Chymru. Mae 12% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n is na'r canran cenedlaethol (21.2%).

Yn dilyn cyfnod o ad-drefnu, apwyntiwyd pennaeth cysylltiol newydd i'r ysgol ym Medi 2010 ac mae ganddi gyfrifoldeb dros ddwy ysgol arall yn yr ardal. Fe gaiff ei chefnogi gan bennaeth cynorthwyol sydd hefyd yn athrawes yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Coedybryn yn 2012-2013 yn £3,767. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £12,284 a'r lleiafswm yw £2,820. Mae Ysgol Gynradd Coedybryn yn safle 32ain allan o'r 58 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Coedybryn yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog, ansawdd yr addysgu yn dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol; a
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth cysylltiol â gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr;
- holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio fel tîm;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun a'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg;
- cynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau; ac
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg lleiafrif o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Cysoni'r arfer asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A3 Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau prosesu data i gefnogi eu gweithgareddau dysgu ar draws yr ystod pynciau

A4 Cryfhau trefniadau monitro'r cynllun datblygu ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy penodol ar yr effaith ar ddeilliannau disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf disgyblion Ysgol Coedybryn yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n dda, yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol ac yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n hyderus ar draws ystod o bynciau.

Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol a'r rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd da mewn gwersi a thros gyfnod.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Gwnânt gynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol ac mae'r rhan fwyaf yn eu defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg, yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda rhuglder a mynegiant clir o ystyried eu man cychwyn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder gan ymateb yn ystyrlon i'r testun. Defnyddiant eu medrau darllen Cymraeg yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i gyflwyno mewn modd diddorol. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn briodol ar draws ystod o bynciau. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen Saesneg yn effeithiol i gywain gwybodaeth gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu'n gelfydd i'w chyflwyno.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau o ysgrifennu ac yn defnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus i sawl pwrpas. Mae gwaith mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg. Mae safon gwaith ysgrifenedig estynedig y goreuon o ansawdd uchel. Er hyn, mae mwy na'r disgwyl o wallau cystrawen yn amlygu yng ngwaith y rhai llai galluog. Mae ansawdd gwaith ysgrifenedig mwyafrif y disgyblion yn Saesneg yn dda er bod gwallau sillafu yn amlygu yng ngwaith y lleiafrif.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael. Roedd cyflawniadau disgyblion saith mlwydd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn cymharu'n dda â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl yng Nghymru ymhlith y 25% uchaf. Yn gyffredinol, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) neu'n uwch hefyd yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg.

Yn 2012 yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn 2012. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Roedd cyflawniadau disgyblion 11 oed yn 2012 ar y lefel uwch (lefel 5) yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ond nid felly dros gyfnod.

**Lles: Da**

Mae disgyblion Ysgol Coedybryn yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae ganddynt agweddau positif tuag at fwyta'n iach ac maent yn mwynhau gweithgarwch corfforol amrywiol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Maent yn gwrtais a pharchus at ei gilydd a thuag at y staff ac ymwelwyr.

Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson yn y 50% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau di-dâl ac yn y 25% uchaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn mwynhau eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n ddygn i wella eu hysgol. Caiff yr holl ddisgyblion gyfle i fynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae disgyblion yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwyedd a bwyta'n iach o fewn yr ysgol, yn ogystal â chodi arian er budd elusennau a ddewiswyd ganddynt.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a'r gymuned leol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion . Mae'r athrawon yn cynllunio'n fedrus i sicrhau bod y profiadau dysgu sy'n ymdrin â gofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llwyddiannus. Mae cynllunio bwriadus yn sicrhau amrediad da o brofiadau sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth i'r disgyblion symud o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu a rhifedd y disgyblion yn drwyadl ac yn sicrhau bod cydlyniad ym mhrofiad y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion i gywain a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Er hyn, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau prosesu data ar draws y pynciau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o awduron lleol ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'r traddodiadau llenyddol.

Ceir darpariaeth dda i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae gwaith y cyngor eco yn ategu pwysigrwydd hyn trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad mentrau megis ailgylchu ffrwythau ar gyfer yr ardd lysiau a hybu masnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas ofalgar rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn creu ethos gweithgar ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau bod y gweithgareddau dosbarth yn ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau. Maent yn gwneud defnydd da o adnoddau gan gynnwys yr ardal allanol. Mae pob aelod o staff yn darparu model ieithyddol da ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a rheolaeth ddosbarth yn effeithiol.

Mae llyfrau'r disgyblion yn cael eu marcio'n rheolaidd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r sylwadau graenus ar waith y disgyblion yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion wella eu gwaith. Mae'r arfer o osod meini prawf llwyddiant a thargedau unigol ar gyfer disgyblion ar waith yn y ddau ddosbarth ond parhau i ddatblygu mae rôl disgyblion wrth asesu eu gwaith eu hunain. Mae system tracio cynnydd effeithiol yn weithredol ar draws yr ysgol. Gwneir defnydd buddiol o asesiadau safonol i adnabod anghenion disgyblion unigol. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn.

Mae'r adroddiadau i rieni yn drylwyr ac yn bodloni'r gofynion statudol mewn modd cryno.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer hyn ac ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hon yn ysgol hapus lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae cyfle da i ddisgyblion fynegi barn neu rannu pryder a chael cynhaliaeth gan eu ffrindiau, athrawon a staff.

Mae perthynas effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliadau cyson yr heddlu a'r nyrs i gyflwyno gwybodaeth berthnasol i'r disgyblion ar sut i gadw'n iach a diogel.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae systemau effeithiol ar gyfer adnabod yn gynnar ddisgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus ar eu cyfer yn y gwersi ac mae'r buddsoddiad diweddar i gyflogi a hyfforddi staff cefnogi yn sicrhau darpariaeth ychwanegol effeithiol i'r disgyblion hyn. Mae cymorth yn cael ei gydlynu'n drefnus ac mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr holl staff ac asiantaethau allanol arbenigol. Caiff rhieni eu hysbysu'n gyson am gynnydd eu plant ac fe gaiff cynlluniau addysg unigol eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae naws deuluol i'r ysgol ac ymdeimlad cartrefol iawn. Mae'n gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae'r ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ble caiff pob disgybl eu trin fel unigolyn. Rhoddir pwyslais llwyddiannus ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r gwahoddiad i rieni disgyblion o wahanol gredoau i'r ysgol i ddangos crefyddau eraill ar waith.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae buddsoddiad diweddar ar adnoddau'r ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn ychwanegu'n llwyddiannus at brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer y disgyblion Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael ac mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus yn creu awyrgylch dysgu deniadol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyfleusterau lleol i ehangu'r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o'r neuadd gymuned ar gyfer gwersi addysg gorfforol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth cysylltiol weledigaeth glir yn seiliedig ar les plant ac ar sicrhau safonau uchel. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n effeithiol i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Caiff gefnogaeth dda gan y pennaeth

cynorthwyol. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithio fel rhan o dîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am y ddarpariaeth addysgol a pherfformiad yr ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llawn. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at osod cyfeiriad strategol yr ysgol drwy drafod blaenoriaethau'r adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae adroddiadau rheolaidd y pennaeth ynghyd ag ymweliadau â'r ysgol, yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol ac i ddal yr ysgol i gyfrif am y safonau.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw helaeth i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae llais y dysgwyr yn cael lle amlwg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth cysylltiol ddealltwriaeth sicr o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau ac agweddau ar gyfer datblygiad pellach. Sefydlwyd trefniadau priodol i ganfod barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r pennaeth yn ystyried ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad manwl o dueddiadau dros gyfnod. Mae hyn oll, ynghyd ag arsylwadau gwersi, yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol.

Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn y broses o wella ansawdd, gyda'r blaenoriaethu yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae strategaethau addas ar gyfer cyflawni'r bwriadau, a defnydd priodol o feini prawf llwyddiant i fesur cynnydd ynghyd â therfynau amser penodol. Er hyn, nid yw'r trefniadau monitro cynnydd yn erbyn bwriadau'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar yr effaith ar ddeiliannau disgyblion.

Mae'r rhwydweithiau o arfer broffesiynol sy'n datblygu o fewn yr ysgol, yn ogystal â'r cysylltiadau sydd wedi eu creu gydag ysgolion eraill sydd o dan ofal y pennaeth cysylltiol, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio gydag ysgolion cyfagos i wella'r ddarpariaeth allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r tîm arweinyddol a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ac maent hwythau yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol.

Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae'r cyswllt cryf rhwng yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r ysgolion eraill o dan arweinyddiaeth y pennaeth cysylltiol wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i’r ysgolion uwchradd yn paratoi’r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â’r ysgolion uwchradd er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion ac i ddarparu hyfforddiant ar y cyd.

Mae’r perthynas agos gyda’r cylch meithrin, sy’n cyfarfod yn neuadd yr ysgol, yn sicrhau bod plant yn llwyddo i ymgartrefu’n fuan yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r ysgol yn elwa o gyswllt adeiladol gyda’r gymuned ac mae’r disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau cymunedol yn rheolaidd. Enghraifft dda o hyn yw eu cyfraniad gwerthfawr tuag at yr eisteddfod leol, cyngherddau a chyrddau Diolchgarwch yng nghwmni trigolion y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol. Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff addysgu a staff cefnogi sy’n cydweithio’n llwyddiannus er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i’r disgyblion. Gwna’r ysgol ddefnydd buddiol o arbenigedd staff er mwyn cyfoethogi profiadau a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli perfformiad yr athrawon sy’n cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae’r targedau yn seiliedig ar flaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion unigolion.

Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal safonau'r ysgol.

Rheolir gwariant cyllid yn ofalus gan y pennaeth a’r corff llywodraethol gyda chymorth swyddog yr awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy’n ymateb i anghenion yr ysgol. Neilltuir cyllid yn flynyddol ar gyfer adnoddau yn unol â blaenoriaethau’r ysgol.

O ystyried y deilliannau da, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fach.

Roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol mewn cyfuniad yn 2012 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) neu uwch mewn medrau iaith a datblygiad personol a chymdeithasol yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ond yn is na chyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl ymhlith y 50% uchaf mewn medrau iaith a datblygiad personol a chymdeithasol ond ymhlith y 50% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Yn 2012 yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a gyda'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Heblaw am 2009/10, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc wedi bod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn 2012. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% uchaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf dros gyfnod o bedair blynedd. Roedd ymhlith y 50% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd hyn.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd yn is mewn mathemateg. Dros gyfnod o bedair blynedd, heblaw am Saesneg, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru.

O ystyried y niferoedd bach, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar holiaduron i rhieni oherwydd nifer bychan yr ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 15 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae'r cyfan yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Maent hefyd o'r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Judith Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Potter | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.